# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gerddi Glasfryn**

**Safle Gwynfryn**
**Ffordd Nantglyn**
**Dinbych**
**LL16 4TA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gerddi Glasfryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Ysgol Breswyl Arbennig |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06/03/2019 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Gerddi Glasfryn yn darparu gofal o safon dda iawn i'r plant, a hynny gan dîm o staff gofal sy'n ymrwymedig, yn eu hadnabod yn dda ac yn parchu ac yn hyrwyddo eu hawliau. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal seibiant i blant sy'n mynychu Ysgol Plas Brondyffryn am hyd at bedair noson yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn hapus i aros yn y gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr. Maent yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael yr hyfforddiant perthnasol. Mae darparwr y gwasanaeth yn rhoi trefniadau llywodraethu a systemau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith. Mae'r rheolwr a'r pennaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac maent yn gofyn i'r plant, eu teuluoedd, y staff gofal a gweithwyr proffesiynol eraill am adborth ar y gofal a ddarperir. Mae hyn yn golygu bod ganddynt wybodaeth fanwl am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu; er mwyn asesu safon y gofal a chynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal i hyd at bedwar plentyn mewn chwe fflat. Er bod y fflatiau yn groesawgar, yn lân ac wedi'u dodrefnu'n addas a bod yr ardaloedd byw wedi cael eu haddurno'n ddeniadol, byddai adnewyddu'r ystafelloedd ymolchi, y toiledau a'r ceginau o fudd i'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfforddus yn y gwasanaeth am eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal. Mae gan y gwasanaeth gydberthnasau da â'r teuluoedd ac mae gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael i'r plant. Caiff barn y plant ei chasglu wrth i'r staff gofal ryngweithio â nhw o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio dewis ddulliau cyfathrebu'r plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn llunio fersiynau Cymraeg o ddogfennau craidd ar gais. Mae'r rheolwr a phum aelod o'r staff gofal yn siarad Cymraeg yn rhugl, felly gall y plant gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r staff gofal yn ymwybodol o anghenion iechyd y plant cyn iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth. Maent yn ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol a theuluoedd er mwyn diwallu anghenion y plant o ran eu llesiant corfforol a'u hiechyd emosiynol. Mae'r staff gofal yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau i sicrhau bod y cymorth ar gyfer materion penodol a chymhleth yn gyson ac yn cael ei lywio gan weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Mae'r staff gofal wedi cyflawni hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y plant yn eu gofal.

Mae'r staff gofal yn llunio cynllunwyr gweithgareddau er mwyn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol neu grŵp. Mae'r rheolwr yn chwilio am weithgareddau ychwanegol yn y gymuned er mwyn cynnig mwy o brofiadau hamdden i'r plant. Mae pob un o'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn mynychu Ysgol Plas Brondyffryn ac mae trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y staff gofal, y gweithwyr addysg proffesiynol a'r tîm cynhwysiant er mwyn sicrhau cysondeb wrth gefnogi'r plant.

Mae'r plant yn derbyn gofal diogel a magwrus am fod systemau ar waith i amddiffyn y plant rhag niwed a chamdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, ac mae pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu fel rhan o'r cyfnod sefydlu, a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae'r plant yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac sy'n eu helpu i sicrhau llesiant. Mae'r gwasanaeth yn groesawgar, yn lân ac mae ystafelloedd y plant wedi'u personoli yn unol â'u chwaeth. Mae digon o le i'r plant gymdeithasu neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cyfarpar a chyfleusterau sy'n annog eu sgiliau byw'n annibynnol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r trefniadau sydd ar waith i'r plant ddechrau defnyddio'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae darparwr y gwasanaeth yn cael gwybodaeth berthnasol gan ffynonellau amrywiol er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Mae'r rheolwr yn gwirio'r wybodaeth atgyfeirio a geir gan yr awdurdodau lleol ac yn cwrdd ag aelodau o'r teulu i gael gwybod am anghenion a dewisiadau eu plentyn. Mae'r plant yn ymweld â'r gwasanaeth i gwrdd â'r staff gofal a'r plant eraill, a rhoddir cyfleoedd iddynt ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Mae'r rheolwr wrthi'n datblygu'r ddogfennaeth paru er mwyn dangos yn glir i ba raddau y bydd plant yn gydnaws â'r plant eraill, ac â'r amgylchedd a sgiliau, profiad a hyfforddiant y staff.

Mae'r tîm o staff gofal yn sefydlog ac yn adnabod y plant yn dda iawn, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r rheolwyr a'r staff gofal yn cydnabod natur unigryw'r plant ac yn gweithio â nhw i hybu eu hyder a'u hunan-barch. Mae gan y plant gynlluniau personol unigol sy'n cynnwys asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Mae'r plant yn gwneud cynnydd, ac mae darparwr y gwasanaeth yn datblygu system i ddangos tystiolaeth well o'u cyflawniadau. Gwelsom y rheolwr a'r staff gofal yn ymgysylltu â'r plant gyda chynhesrwydd a defnydd priodol o hiwmor ysgafn. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol: *“I have had numerous young people accessing the service over the years and acknowledge that it is a positive experience for both the young people and their families. I also enjoy seeing how the young people progress over time as the service is very child focussed.”*

Mae'r staff gofal yn ymatebol i anghenion iechyd sy'n dod i'r amlwg ac mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff camau gweithredu dilynol addas eu cymryd mewn perthynas â newidiadau i ymddygiad y plentyn. Mae gweithwyr proffesiynol allanol yn goruchwylio iechyd emosiynol a chorfforol y plant ac mae'r tîm o staff gofal yn cydgysylltu â thîm cynhwysiant yr ysgol sy'n rhoi cyngor sydd wedi'i deilwra at anghenion unigol y plant iddynt. Mae'r staff gofal yn cael yr hyfforddiant sy'n berthnasol i bob agwedd ar anghenion y plant, a cheir cyfathrebu effeithiol mewn cyfarfodydd tîm i sicrhau bod cysondeb yn eu dulliau gweithredu. Dywedodd un rhiant: *“They take time to understand how to best meet the needs of every individual child.”*

Mae systemau cadarn ar waith ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau ar waith a gall y staff gofal gael gafael ar gyfarpar diogelu personol (PPE) a nwyddau glanhau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety addas i hyd at 24 o blant ar y tro. Mae chwe fflat llawr gwaelod unigol, ac mae lle i bedwar plentyn ym mhob un ohonynt, ond nid yw pob un o'r fflatiau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r ardaloedd byw wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu'n ddeniadol; fodd bynnag, mae ôl traul yn yr ystafelloedd ymolchi, y toiledau a'r ceginau a byddai eu hadnewyddu o fudd i'r gwasanaeth. Mae pob fflat yn cynnwys pedair ystafell wely sy'n addas i blant; ystafell fyw/ystafell fwyta/cegin agored; ystafell ymolchi a thoiled ar wahân. Mae ystafell ymgolli digidol ar gael, ond dywedwyd wrthym nad oedd y dechnoleg ymgolli yn gweithio ar hyn o bryd ond bod y plant yn defnyddio'r cyfarpar arall yn yr ystafell. Mae neuadd ar gael i'r plant ei defnyddio er mwyn chwarae gemau corfforol dan do a chynnal nosweithiau ffilmiau. Y tu allan, ceir gardd fawr gaeedig sy'n cynnwys cyfarpar chwarae awyr agored. Mae'r adeilad hefyd yn cynnwys swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod yn ogystal ag ystafelloedd gwely i'r staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau dros nos. Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd hygyrch, dymunol a chroesawgar sy'n gwella eu llesiant.

Mae'r ceginau yn lân, yn hylan ac yn cynnwys amrywiaeth dda o ddyfeisiau, ac mae'r ystafelloedd byw wedi'u dodrefnu'n gyfforddus. Mae gan y gwasanaeth nifer ddigonol o gerbydau er mwyn i'r plant fynychu gweithgareddau, er bod y staff gofal hefyd yn eu helpu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o'r broses o ddatblygu eu hannibyniaeth.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn nodi gwaith cynnal a chadw a pheryglon amgylcheddol ac yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Ddinbych amdanynt. Mae dwy swyddfa ar gael yn y gwasanaeth sy'n cynnig lleoliad i gynnal cyfarfodydd a thrafodaethau cyfrinachol. Mae'r cofnodion ysgrifenedig yn cadarnhau bod gwiriadau sy'n ymwneud â diogelwch tân a phrofion ar y cyfarpar trydanol a'r boeler yn cael eu cwblhau. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae niferoedd priodol o staff gofal ar gael i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a threfniadau comisiynu'r awdurdod lleol. Mae'r staff gofal yn cwblhau cyfnod prawf cyn cael eu cadarnhau yn y swydd. Mae'r staff gofal newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu'r gwasanaeth yn ogystal â fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, a chânt eu hannog a'u cefnogi i ennill y cymwysterau perthnasol. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal bob wythnos, ac mae'r rheolwr hefyd yn ymgymryd â shifftiau dros nos bob wythnos er mwyn gweld sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu gyda'r nos ac er mwyn cael cyfle i siarad â'r staff gofal nos.

Roedd y staff gofal yn gadarnhaol iawn wrth sôn am y rheolwr a'r cymorth y maent yn ei gael. Nododd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd arolygon Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod safon y cymorth a'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael yn rhagorol. Dywedodd rhai y gellid gwella'r fflatiau drwy eu hadnewyddu ac awgrymwyd y byddai o fudd petai llechi cyfrifiadurol a gwell mynediad at y rhyngrwyd ar gael i'r plant. Ar hyn o bryd, mae un cyfrifiadur ym mhob fflat i'r plant ei ddefnyddio ac i'r staff gofal gwblhau cofnodion.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd. Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal bob tymor ac maent yn ymdrin â meysydd megis arferion gweithio, anghenion y plant a datblygiad proffesiynol. Mae amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i'r staff gofal.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith i redeg y gwasanaeth mewn ffordd ddiogel a hwylus. Mae arferion a strwythurau sefydledig ar waith ynghyd â diwylliant pwyllog, cadarnhaol a magwrus. Dywedodd y rhieni bod y gwasanaeth yn rhagorol, a nododd llawer ohonynt y byddai'n fuddiol pe gallent ddefnyddio'r gwasanaeth ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n effeithiol. Mae'r pennaeth yn ymweld â'r fflatiau yn rheolaidd, ond mae'n cynnal ymweliadau ffurfiol bob tymor er mwyn siarad â'r plant, y staff gofal a'r rheolwr ac i fwrw golwg ar y cofnodion. Caiff ymweliadau ychwanegol eu cynnal gan lywodraethwyr yr ysgol, sydd hefyd yn llunio adroddiadau ar eu canfyddiadau. Mae'r rheolwr wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ac mae'r adroddiad manwl ar y canfyddiadau yn darparu asesiad o safon y gofal ac yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu a gwella'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/01/2024